# Y Silures





Cyn i'r Rhufeiniaid gyrraedd, y llwyth amlycaf yn yr ardal o amgylch Gelligaer oedd y Silures.

Cyfeiriwyd atynt yng ngwaith Plinius, Ptolemaeus a Tacitus, yn ymwneud yn bennaf â'u natur ryfelgar.

Mae'n debyg mai eu tiriogaeth oedd yr ardal lle mae Morgannwg, Gwent a de Powys heddiw. Cawsent eu disgrifio fel pobl gwallt cyrliog gyda naill ai groen tywyll neu wedd writgoch.

Nhw oedd un o'r grymoedd cryfaf a wynebodd y fyddin Rufeinig. Hyd yn oed pan drechwyd Caradog (Caractacus), pennaeth y Catuvellauni a ddaeth yn arweinydd rhyfel arnynt, parhaodd y bobl yma i ryfela yn erbyn y Rhufeiniaid hyd oddeutu 78 OC.

Galwodd Tacitus nhw yn *"bobl naturiol ffyrnig"*.

*"Nid oedd terfysgaeth yn cael unrhyw effaith arnynt, na thosturi chwaith; roeddent yn dyfalbarhau mewn rhyfel a dim ond llengoedd oedd yn gwersylla yn eu gwlad a ddistawodd y bobl yma."*

Blynyddoedd ar ôl gorchfygu Caradog hyd yn oed, dywedodd un awdur "...cafodd y Rhufeiniaid eu trechu a'u gyrru ar ffo dro ar ôl tro gan y Silures yn unig."

Yn ogystal â bod yn rhyfelwyr cryfion, roeddent yn fasnachwyr ac yn enwog am eu sgiliau gyda cheffylau. Ar ôl y goncwest, mae'n ymddangos bod nifer o ddynion Silwraidd ifainc wedi dod yn w_r meirch ategol. Ond redden nhw'n fwy na dim ond marchogion da – mae tystiolaeth hefyd i ddangos eu bod yn defnyddio cerbydau wedi'u tynnu gan geffylau. Mae hyn yn awgrymu bod rhyw fath o rwydwaith ffyrdd i'w gael mae'n debyg hyd yn oed cyn cyfnod y Rhufeiniaid. Mae'r canfyddiadau'n dangos hefyd eu bod yn hoff o addurniadau, ac mae'n ymddangos eu bod yn ffafrio'r lliw coch.

Ymhob un o'r llwythau Celtaidd, y bobl bwysicaf mewn pentref oedd y Derwyddon, y penaeth, y crefftwyr (yn enwedig y gweithwyr metel) a'r rhyfelwyr. Roedd y mwyafrif o'r llwyth yn ffermwyr yn anad dim – yn darparu'r bwyd ar gyfer y pentref drwy edrych ar ôl y caeau a'r anifeiliaid. Roeddent hefyd yn darparu'r gwlân hanfodol ar gyfer y dillad. Oddi tanynt hwy roedd y bobl gaeth. Dyma oedd y caethweision. Byddai rhai ohonynt wedi cael eu geni i'r sefyllfa honno, a byddai eraill wedi cael eu cipio o lwythi eraill.